

Ymchwilio i bryderon

Cyflwyniad

- 1 Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio ein gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i bryderon ynghylch meddygon. Mae'n pwerau a'n sancsiynau yn gysylltiedig gyda'n cyfrifoldebau dros gynnal cofrestr y meddygon sy'n gallu gwneud gwaith meddygol yn y DU. Mae'n pwerau Addaswydd i wneud Gwaith Meddygol yn canolbwyntio ar y pryderon mwyaf difrifol, a allai fwrw amheuaeth ar addaswydd meddyg i wneud gwaith meddygol, a pha mor addas yw hi eu bod yn cadw gafael ar eu cofrestrriad digyfngiad fel meddyg.
- 2 Fel arfer, dim ond y pryderon hynny y byddai modd iddynt olygu ein bod yn cymryd camau er mwyn atal neu gyfyngu ar hawl y meddyg i wneud gwaith meddygol, y byddwn yn ymchwilio iddynt. Byddwn yn adolygu'r holl gwynion newydd er mwyn nodi'r rhai y bydd angen i ni ymchwilio iddynt ein hunain, gan bod posibilrwydd y gallai'r materion fod yn rhai difrifol. Byddwn yn cyfeirio at y rhain fel cwynion Ffrwd 1.
- 3 Os na fyddwn o'r farn bod y materion a godir yn rhai y bydd angen i ni ymchwilio iddynt ein hunain, gallwn gwblhau'r gŵyn neu ei chyfeirio at gyflogwyr y meddyg, er mwyn iddynt ei hystyried yn lleol. Yn aml, mae gweithdrefnau lleol mewn sefyllfa well i gynnig yr esboniad, y tawelwch meddwl neu'r ymddiheuriad y bydd claf yn dymuno'i gael efallai. Yn ogystal, mae cyflogwyr mewn sefyllfa well i asesu a oes unrhyw broblemau ehangach yn bodoli y bydd angen delio â nhw efallai.

Ymchwiliadau CMC

- 4 Os ceir pryderon a allai godi cwestiynau ynghylch addaswydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, byddwn yn cychwyn ar ein hymchwiliad. Pan fyddwn yn dechrau ymchwilio i bryderon, bydd angen i ni fel arfer gael gwybodaeth bellach gan y cwynwr neu gan y sefydliad sydd wedi cyfeirio'r mater ymlaen atom. Yn ogystal, bydd angen i ni gael caniatâd cwynwr unigol er mwyn datgelu'r gŵyn i'r meddyg.

- 5 Ym mhob achos y byddwn yn ymchwilio iddo, byddwn yn datgelu'r gŵyn i'r meddyg yn gynnar, ac yn gofyn iddynt ddarparu manylion ynghylch eu cyflogwr/cyflogwyr neu eu corff contractio (nNid ydym yn cadw cofnodion ynghylch cyflogwyr meddygon unigol). Yn ogystal, mae hyn yn sicrhau bod y meddyg yn cael cyfle i wneud sylwadau am y gŵyn yn gynnar.
- 6 Ar ôl i ni gael manylion cyflogaeth y meddyg, byddwn yn datgelu'r gŵyn i'r meddyg ac i'w cyflogwr/corff contractio. Mae hyn yn sicrhau bod gennym drosolwg cyflawn o waith meddygol y meddyg. Yn ogystal, mae'r broses hon o gyfnewid gwybodaeth yn sicrhau bod ein gwybodaeth ni ar gael i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu clinigol lleol.
- 7 Bydd ein hymchwiliad yn dibynnu'n fawr ar natur y pryderon a fynegwyd i ni. Bydd ein staff ymchwilio yn penderfynu ar y ffrwfiau ymchwilio mwyaf effeithiol ar gyfer yr achos, gan baratoi cynllun ymchwilio. Gallai ymchwiliad gynnwys:
 - sicrhau tystiolaeth ddogfennol bellach gan gyflogwyr, y cwynwr neu bartïon eraill
 - sicrhau datganiadau gan dystion
 - sicrhau adroddiadau arbenigol ynghylch materion clinigol, ac ati
 - asesiad o berfformiad y meddyg
 - asesiad o iechyd y meddyg.
- 8 Ar ôl i ni gwblhau ein hymholiadau, byddwn yn cynnig cyfle pellach i'r meddyg wneud sylwadau, cyn i ni benderfynu pa gamau i'w cymryd.

Archwilwyr Achos

- 9 Ar ddiwedd ein hymchwiliad rhagarweiniol, bydd dau aelod uwch o staff yn CMC, a elwir yn archwilwyr achos (un meddygol ac un anfeddygol) yn ystyried yr achos. Gallant:
 - gwblhau'r achos heb gymryd unrhyw gamau pellach
 - rhoi rhybudd
 - cyfeirio'r achos i Banel Addaswydd i wneud Gwaith Meddygol
 - cytuno ar ymgymeriadau gyda'r meddyg¹.

¹Mae gennym daflen ffeithiau ar wahân o'r enw 'Ymgymeriadau'

- 10** Ni fydd modd cwblhau unrhyw achos, na'i gyfeirio ymlaen at banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol, heb sicrhau cytundeb archwiliwr achos meddygol ac archwiliwr achos anfeddygol yn gyntaf. Os na fyddant yn cytuno, bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn ystyried y mater, y mae'n meddu ar yr un pwerau ag y mae'r archwilwyr achos yn meddu arnynt. Mae modd troi at ein gwefan er mwyn gweld yr arweiniad a ddefnyddir gan archwilwyr achos i'w helpu i wneud eu penderfyniadau.
- 11** Byddwn yn hysbysu'r meddyg a'r cwynwr ynghylch penderfyniad yr archwilwyr achos, a'u rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw.

Rhybuddion

- 12** Os bydd yr archwilwyr achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu nas amharwyd ar addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, byddant yn gallu rhoi rhybudd. Bydd rhybudd yn briodol os bydd y pryderon yn cyfeirio at achos o wyro o'r safonau a nodir yn arweiniad CMC ar gyfer meddygon, *Arfer Meddygol Da*, mewn ffordd sylweddol, neu os ceir pryder sylweddol yn dilyn asesiad o berfformiad y meddyg
- 13** Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn cyfarfod i ystyried yr achosion hynny pan fydd yr archwilwyr achos yn penderfynu rhoi rhybudd, ond pan fo'r meddyg wedi anghytuno gyda'r ffeithiau, neu pan fyddant wedi gofyn i'r mater gael ei ystyried mewn gwrandawriad gan y Pwyllgor Ymchwilio. Bydd y gwrandawriad a gynhelir yn wrandawriad cyhoeddus. Mae taflen ffeithiau ar wahân ar gael ynghylch rhybuddion.

Panel Gorchmynion Interim

- 14** Ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad, efallai y byddwn yn cyfeirio'r meddyg at y Panel Gorchmynion Interim (PGI). Gall PGI atal neu gyfyngu ar y gwaith meddygol a wneir gan y meddyg wrth i'r ymchwiliad barhau, os bydd hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, neu os bydd er budd y cyhoedd fel arfer neu er budd y meddyg i wneud hynny.